

Y Gymraeg Mewn Arfer Proffesiynol (ECAD6022-C) 2025-26



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 8 a 9:
15^{fed} o Ionawr 2026
Gorchmynion, cyfarwyddiadau a chwestiynau

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Gorchmynion



- Beth ydy gorchmynion?
- Pryd byddwn ni'n eu defnyddio nhw?
- Beth sy'n rhaid i ni gofio?

Ti



Unigolyn

Chi



Lluosog



Dangos parch

Gorchmynion cadarnhaol

Rydyn ni'n defnyddio'r gorchmynion **unigol** i siarad ag un plentyn a'r gorchmynion **lluosog** pan rydyn ni'n siarad â grŵp.

Mae'r **unigol** yn cael ei ffurfio drwy roi -
a ar ddiwedd bonyn y ferf,
e.e. Rheda! Cerdda!

Fel arfer, mae'r **lluosog** yn cael ei ffurfio drwy roi -**wch** ar ddiwedd bonyn y ferf, e.e. Rhed**wch**! Sgipi**wch**!

Berfau bendigedig!

Bonyn y ferf + terfyniad

eistedd-

-wch

-a

chi

ti

Mae rhai berfau'n aros yr un peth e.e.

Bonyn	Berf orchmynnol: unigol	Berf orchmynnol: lluosog
eistedd-	eistedda	eisteddwch
siarad-	siarada	siaradwch
darllen-	darllena	darllenwch



Os ydy'r berfenw'n gorffen gydag ~~ed~~ neu
~~eg~~ e.e.

Bonyn	Berf orchmynnol: unigol	Berf orchmynnol: lluosog
rhed-	rheda	rhedwch
yf-	yfa	yfwch
cerdd-	cerdda	cerddwch



Rheol 2

Os ydy'r berfenw'n gorffen gyda llafariad,
gollyngwch y llafariad olaf e.e.

Bonyn	Berf orchmynnol: unigol	Berf orchmynnol: lluosog
ysgrifenn-	ysgrifenna	ysgrifenn wch
gweithi-	gweithia	gweithi wch
cymysg-	cymysga	cymysg wch





Rheol 3

Rheolau gwahanol:



Berfenw	Bonyn	Berfau gorchmynnol
sefyll	sef-	Sefa Sef wch
aros	ar <u>h</u> os-	Arhosa Arhos wch
cyr-raedd	cyr <u>h</u> aedd-	Cyrhaedda Cyrhaedd wch
gwrando	gwrand-	Gwranda Gwrand <u>e</u> wch

Chwarae Chwap!



Tasg: Meddyliwch am gemau eraill er mwyn adolygu'r gorchmynion.

Cerddwch	Darllenwch	Yfwch	Edrychwch
Paentiwch	Sefwch	Gwyliwch	Cofiwch
Gweithiwch	Cynlluniwch	Canwch	Tacluswch

Chwarae

Darllena

Yfa

Gwylia

Rheda

Sefa

Neidia

Arhosa

Cynllunia

Ymateba

Taclusa

Gweithia

Rhaid cofio treiglo'n feddal yn syth
ar ôl ffurf orchmynnol y ferf.

- Darllena lyfr!
- Siaradwch Gymraeg!
- Cofiwch wneud hyn!

Sylwch hefyd...

Dydy enwau
ddim yn
treiglo!

Edrycha, Twm!

Gweithia, Lisa!

Ond...

Gwrandewch,
blant!

Ysgrifennwch,
bawb

Edrychwch,
flwyddyn 9

Rhagenwau dibynnol

	Unigol	Lluosog
Ail berson	dy	eich

Rydych chi'n defnyddio 'dy' wrth gyfeirio at un person. Mae angen **treiglo'n feddal** ar ôl 'dy' e.e. dy waith.

Rydych chi'n defnyddio 'eich' wrth gyfeirio at fwy nag un person. **Nid oes treigl**ad ar ôl 'eich' e.e. eich gwaith.

Gorchmynion

Cofiwch: mae
ansoddeiriau'n
treiglo'n feddal ar
ôl 'yn'.


Unigol	Lluosog
Rheda'n g yflym.	Rhedwch yn g yflym.
Gwranda'n o falus.	Gwrandewch yn o falus.
Gwisga dy g ot.	Gwisgwch eich cotiau.
Sefa'n llonydd.	Sefwch yn llonydd.

Berfau afreolaidd



Berfenw	Berf orchmynnol: Unigol	Berf orchmynnol: Lluosog
Mynd	Cer	Ewch
Dod	Dere	Dewch
Gwneud	Gwna	Gwnewch
Bod	Bydd / Bydda	Byddwch

Beth sy'n mynd yn y bwlch?



Unigol	Lluosog
_____ i weithio ar y cyfrifiadur.	Dewch i weithio ar y cyfrifiadur.
Cer i nôl dy f ag.	_____ i nôl eich bagiau.
_____ dy w aith.	Gwnewch eich gwaith.
Bydda'n g aredig.	_____ yn g aredig.

Atebion:



Unigol	Lluosog
<u>Dere</u> i weithio ar y cyfrifiadur.	Dewch i weithio ar y cyfrifiadur.
Cer i nôl dy <u>f</u> ag.	<u>Ewch</u> i nôl eich bagiau.
<u>Gwna</u> dy <u>w</u> aith.	Gwnewch eich gwaith.
Bydda'n <u>g</u> aredig.	<u>Byddwch</u> yn <u>g</u> aredig.

Mae Seimon yn dweud...



Eistedda Cerdda Sefa Bwyta	'n dawel 'n araf 'n gyflym	Nia. Elis.
Eistedd wch Cerdd wch Sef wch Bwy t wch	yn d awel yn araf yn g yflym	bawb. ferched. fechgyn. Flwyddyn 9.
Cer Dere Gwna Bydda	allan yma y gwaith yn ofalus	Nia. Elis.
Ewch Dewch Gwnewch Byddwch	allan yma y gwaith yn ofalus	blant. ferched. fechgyn. Flwyddyn 5.

Gorchmynion



Unigol: -a

Lluosog: -wch

Symuda	Symudwch
Gwylia	Gwyliwch
Ysgrifenna	Ysgrifennwch
Caewch	Caea

Edrycha/ wch arna i
Gwranda/ wch arna i
Edrycha/ wch ar y bwrdd gwyn
Dweda/ wch ar fy ôl i
Ailadrodda/ wch.

Gorchmynion negyddol

- Mae'r gorchymyn unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **Paid â** o flaen y berfenw ac mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **Peidiwch â** o flaen y berfenw. Mae hyn yn achosi **treigladau**, e.e.

Paid â cherdded!

Peidiwch â phoeni!

- Dydyn ni ddim yn defnyddio'r treigladau hwn bob tro ar lafar.
- Os oes llafariad yn dilyn 'â', byddwn yn defnyddio '**ag**' yn lle. e.e

Paid ag agor y ffenest!

Peidiwch ag anghofio eich llyfrau!

Gorchmynion negyddol

Unigol	Lluosog
Paid â <u>ch</u> weryla.	Peidiwch â <u>ch</u> weryla.
Paid â bod yn ddigywilydd.	Peidiwch â bod yn ddigywilydd.
Paid â <u>ch</u> erdded yn y mwd.	Peidiwch â <u>ch</u> erdded yn y mwd.
Paid â <u>m</u> eiddio.	Peidiwch â <u>m</u> eiddio.

‘Peidiwch â...’ neu ‘Peidiwch ag...’?



1. Peidiwch â dawnsio.
2. Peidiwch ag anghofio eich gwaith cartref.
3. Peidiwch â mynd.
4. Peidiwch ag eistedd.
5. Peidiwch â gwthio.
6. Peidiwch â bod yn hwyr.
7. Peidiwch ag ysgrifennu eto.
8. Peidiwch â chweryla.



Tasg: Pa orchymyn?

Llenwch y bylchau yn y brawddegau isod. Os ydy'r frawddeg yn cyfeirio at un person, defnyddiwch ffurfiau'r 2il berson unigol (*ti*), ac os ydy'n cyfeirio at fwy nag un person, defnyddiwch ffurfiau'r 2il berson lluosog (*chi*).

1. **Rho** gyfle i Siân ateb, Gareth. (*rhoi*)
2. **Codwch** eich dwylo cyn rhoi'r ateb. (*codi*)
3. **Bydda'n** ofalus gyda'r siswrn yna, Catrin. (*bod*)
4. **Edrychwch** yn fanwl ar y llun yma, bawb. (*edrych*)
5. **Gwrandewch** yn astud ar y stori hon, bob un ohonoch chi. (*gwranddo*)

Tasg: Pa orchymyn?



6. **Ceisia** fod yn fwy gofalus wrth liwio, Helen. (*ceisio*)
7. **Arhoswch** mewn llinell tan i Mr Jones ddod atoch. (*aros*)
8. **Gofynna** i'r prifathro ble mae'r allweddi, Huw. (*gofyn*)
9. **Sefa'n** llonydd am eiliad, wnei di? (*sefyll*)
- 10 **Lliwiwch** . y blodau gan sylwi ar y lliw glas hyfryd, dyna blant da. (*lliwio*)
11. **Paid** â rhedeg o'r dosbarth, Gareth. (*peidio*)
12. **Ysgrifenna/wch** baragraff yn disgrifio'r olygfa. (*ysgrifennu*)

Rhaid

Cofiwch: mae
treigladd meddal ar
ôl y rhagenwau

- Rhaid i **fi** **f**ynd
- Rhaid i **ti** **w**rando
- Rhaid **iddo** **fe** **dd**ysgu
- Rhaid **iddi** **hi** **g**ysgu
- Rhaid i **ni** **f**wyta
- Rhaid i **chi** **dd**arllen
- Rhaid **iddyn** **nhw** **f**wynhau
- *Rhaid i **Nia a Huw** **g**ofio

i fi

i ti

iddo fe

iddi hi

i ni

i chi

iddyn nhw

i Tom

Cywirwch y gwallau



1. Cerdda'n
dawel Rhian.

2. Rhaid i chi
wrandu, blant.

3. Peidiwch **ag**
agor y ffenest
yn y dosbarth.

4. Paid â
thaflu'r sbwriel
Wil!

5. Ysgrifenna
dy enw ar y
llyfr.


6. Sef**wch** yn
dawel tu ôl
eich cadeiriau.

7. Rhaid i chi
weithio.

8. Eisteddwch
a bwy**twch** yn
dawel.

Adnoddau defnyddiol i'r dosbarth ac i chi ...

Mae Uned 5 yn y llyfr hwn yn canolbwyntio ar iaith arholi e.e.



Rhan annatod o'r broses ddysgu ac addysgu yw gafael a dealltwriaeth o iaith a thermau arholiad. Cynigir isod rhestr o eiriau/termau arholi defnyddiol sy'n gyffredin ar draws pynciau'r cwricwlwm. Mae rhai o'r rhain yn gorffen gydag **-wch** ac yn dweud wrthyh beth i'w wneud.







TERM

YSTYR

A

Adolygu – Adolygwch	Ymateb yn feirniadol gan drafod rhinweddau a diffygion.
Adrodd – Adroddwch	
Angenrheidiol	Yn bwysig iawn
Amcangyfrif – Amcangyfrifwch	Rhoi syniad bras neu syniad rhesymegol; y cyfrif agosaf
Amlinellu – Amlinellwch	Rhoi syniad bras, prif bwyntiau.
Anfantais	Y pethau hynny sy'n gwneud drwg, niwed, sy'n golled. Rhywbeth nad sydd o fantais.
Archwilio – Archwiliwch	Edrych ar rywbeth yn agos neu ymchwilio iddo.
Asesu – Aseswch	Ystyried yn fanwl, pwysu a mesur
Astudio – Astudiwch	Mae angen edrych yn fanwl
Ateb – Atebwch	
Awgrym – Awgrymwch	Dweud yr hyn yr ydych yn ei feddwl

Adnoddau defnyddiol i'r dosbarth ac i chi



Datblygu sgiliau darllen ac iaith y disgyblion...

DITECTIF GEIRIAU



Llyfrau sydd yn addas
ar gyfer disgyblion CA2
– mae cwestiynau
“darllen a deall” yma
ynghyd â chwestiynau
am ramadeg.



Tebyg i “Ditectif Geiriau” ond ar
gyfer CA3.

Creu cyfarwyddiadau



Meddyliwch am Faes Dysgu a Phrofiad ac ewch ati i greu gorchmynion addas ar gyfer gwers benodol e.e.

- Labelwch eich graffiau.
- Brasluniwch lun o'ch syniadau.
- Cymharwch dywydd y ddwy wlad.
- Cymysgwch y cynhwysion yn dda mewn powlen.
- Cywir neu anghywir? Dewiswch yr ateb cywir.

Tasg: Pa orchymyn?



Mewn parau llenwch y bylchau yn y brawddegau isod. Os ydy'r frawddeg yn cyfeirio at un person, defnyddiwch ffurfiau'r 2il berson unigol (*ti*), ac os ydy'n cyfeirio at fwy nag un person, defnyddiwch ffurfiau'r 2il berson lluosog (*chi*).

- 1 **Dilynwch** Terwyn o'r neuadd, fechgyn. (dilyn)
- 2 **Mwynhewch** eich gwyliau, bawb. (mwynhau)
- 3 **Byddwch** yn **d**awel, bob un, neu chaiff neb fynd allan i chwarae. (bod)
- 4 **Rhowch** eich dwylo ar eich pen. (rhoi)
- 5 **Yfa** dy **dd**iod wrth y bwrdd. (yfed)
- 6 **Eglura** wrth Daniel sut y cefaist ti'r ateb, Sam. (egluro)



Pa wallau?

Gwrandewch yn ofalus ar y clip sain canlynol a gnewch nodiadau o'r gwallau rydych chi'n eu clywed.

Mae 10 gwall.



Atebion:




Bore da, flwyddyn chwech! Mae heddiw yn ddiwrnod cyffrous. Rydyn ni'n mynd i ddysgu mwy am Ffrainc. Pawb, **ewch** i'ch grŵp. Dafydd **gwranda** arna i os gweli di'n dda.

Iawn, grŵp melyn, **dechreuwch** drwy agor y pecyn sydd o'ch blaenau. Darllenwch **g**yfarwyddiadau'r gêm gyntaf yn ofalus. Wedyn, labelwch y lluniau yn Ffrangeg.

Grŵp gwyrdd, **edrychwch** ar y bwydydd Ffrengig sydd ar y bwrdd. Tynnwch **l**un o'r bwydydd a labelwch y lluniau yn Ffrangeg. Liwsi, **canolbwyntia** ar dy waith nawr.

Grŵp glas, dewiswch **d**aflen sydd ar y bwrdd a darllenwch y ffeithiau yn ofalus. **Ysgrifennwch** un ffaith rydych chi'n ei ddysgu am Ffrainc cyn dewis taflen arall. Ceisiwch **g**asglu deg ffaith.

Cywir neu Anghywir?



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:

1. Rhannwch y dosbarth yn dimoedd o dri.
2. Bydd angen i un o bob grŵp ysgrifennu'r ateb ar y byrddau gwyn bach.
3. Bydd angen dangos sleid 8-13 ar y bwrdd gwyn.
4. Gwaeddwch cywir neu anghywir?
5. Bydd pawb sy'n nodi'r ateb cywir yn cael marc ar gyfer eu grŵp.
6. Mae cyfleoedd i gael marciau ychwanegol pan fydd y grŵp wedi ysgrifennu'r frawddeg yn gywir.

Cywir neu Anghywir?



Gwisgwch eich
gotiau, blant.



Gwisgwch eich cotiau, blant.
Does **dim** treigladau ar ôl 'eich'

Cywir neu Anghywir?



Peidiwch ag eistedd
ar y llawr.



Defnyddir '**ag**' o flaen llafariad.

Cywir neu Anghywir?



Gwnewch dy waith
yn dawel Lisa.



Gwna dy waith yn dawel Lisa.
Angen ffurf **unigol** 'gwneud' yma.

Cywir neu Anghywir?



Paid â taflu'r gwaith ar
y llawr!



Paid â **th**aflu'r gwaith ar y llawr!
Treigladau ar ôl 'â'.

Cywir neu Anghywir?



Peidiwch â gwrthio os
gwelwch yn dda.



Cywir neu Anghywir?



Rhaid i chi mynd i'r
wers.



Rhaid i chi **f**ynd i'r wers.
Treiglad meddal ar ôl y rhagenw 'chi'.

Gorchmynion i'w hosgoi ...



eisteddwch i lawr

sefwch i fyny

llenwch y tabl mewn

ysgrifennwch i lawr

torrwch allan


trowch y golau bant

croeswch e mas / allan

dewch lan i'r blaen



Atebion



eisteddwch

llenwch y tabl

sefwch

ysgrifennwch


torrwch

diffoddwch y golau

dilëwch e

dewch i'r blaen

Creu cyfarwyddiadau.



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:


1. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 yn seiliedig ar addysg gynradd ac uwchradd neu Faes Dysgu a Phrofiad.
2. Bydd angen sleid 15 ar y bwrdd gwyn.
3. Gwasgwch y botwm troi ac yna bydd angen iddynt ddefnyddio'r berfenw i greu gorchymyn neu gyfarwyddyd.

Tasg adolygu:

- Defnyddiwch ferfenw i greu cyfarwyddyd.
- Dewiswch y ffurf **unigol** neu'r ffurf **lluosog**.

Cofiwch:

- **Treigl**ad meddal ar ôl 'dy' e.e. dy **f**ag.
- **Dim treigl**ad ar ôl eich e.e. eich bagiau.
- Adferfau: mae ansoddeiriau'n **treiglo**'n feddal ar ôl 'yn' e.e. yn **d**awel.




Tasg adolygu:

- Defnyddiwch ferfenw i greu cyfarwyddyd.
- Dewiswch y ffurf **unigol** neu'r ffurf **lluosog**.

Cofiwch:

- **Treigl**ad meddal ar ôl 'dy' e.e. dy **f**ag.
- **Dim treigl**ad ar ôl eich e.e. eich bagiau.
- Adferfau: mae ansoddeiriau'n **treiglo**'n feddal ar ôl 'yn' e.e. yn **d**awel.



Creu cyfarwyddiadau



Meddyliwch am Faes Dysgu a Phrofiad ac ewch ati i greu gorchmynion addas ar gyfer gwers benodol e.e.

- Labelwch eich graffiau.
- Brasluniwch lun o'ch syniadau.
- Cymharwch dywydd y ddwy wlad.
- Cymysgwch y cynhwysion yn dda mewn powlen.
- Cywir neu anghywir? Dewiswch yr ateb cywir.

Cwestiynau a chyfarwyddiadau cwrtais

Mae modd gofyn i rywun wneud rhywbeth mewn ffyrdd eraill. Rydyn ni wedi edrych ar orchmynion uniongyrchol hyd yn hyn, ond ceir dull cwmpasog o ofyn i wneud rhywbeth e.e :

Wnei di...?

Wnewch chi...?

Cwestiynau cwrtais



Wnei di...?
(Unigol)



Wnewch chi...?
(Lluosog)

Wnei di...? Wnewch chi...?

Gallwn ddefnyddio ffurfiau dyfodol y ferf 'gwneud' i gyfleu gorchmynion yn gwrtais. Mae'r ferf yn treiglo'n feddal ar ddechrau'r cwestiwn a cheir treigladd meddal yn dilyn y cwestiwn e.e :



Wnei di roi dy lyfr ar
fy nesg Tomos?



Wnewch chi ddod i'r
ymarfer amser cinio?

Atebion cywir...



			
Unigol	<u>W</u> nei...?	Gwnaf	Na <u>w</u> naf
Lluosog	<u>W</u> newch chi...?	Gwnawn	Na <u>w</u> nawn

Alli di...? Allwch chi...?

Gallwn ddefnyddio ffurfiau dyfodol y ferf 'gallu' i gyfleu gorchmynion yn gwrtais. Mae'r ferf yn treiglo'n feddal ar ddechrau'r cwestiwn a cheir treigladd meddal yn dilyn y cwestiwn e.e :



Alli di **g**wblhau hwn fel
gwaith cartref?



Allwch chi **dd**od i'r ymarfer
pêl-droed yfory ?

Atebion cywir...



			
Unigol	<u>A</u> lli di...?	Gallaf	Na <u>a</u> llaf
Lluosog	<u>A</u> llwch chi...?	Gallwn Gallaf	Na <u>a</u> llwn Na allaf

Allet ti...? Allech chi...?

Hefyd, mae modd defnyddio'r ffurfiau amodol canlynol:



Allet ti ychwanegu
mwy?



Allech chi adolygu heno?

Atebion cywir...



			
Unigol	<u>A</u> llet ti...?	Gallwn	Na <u>a</u> llwn
Lluosog	<u>A</u> llech chi...?	Gallen Gallwn	Na <u>a</u> llen Na allwn

Wnei di?

Wnewch chi?

Alli di?

Allwch chi?

Allet ti?

Allech chi?


Hoffwn i..

Wrth roi cyfarwyddiadau, mae defnyddio 'Hoffwn i' yn ddefnyddiol.

Cofiwch mae gwrthrych berf bersonol yn **treiglo'n feddal** e.e.


- Hoffwn dynnu eich sylw at fap o'r wlad.
- Hoffwn i chi dacluso'r ystafell cyn amser chwarae.
- Hoffwn i ti wrando nawr, Liwsi.
- Hoffwn i chi gymharu'r ddau frenin.
- Hoffwn i chi eistedd ar y mat yn barod am stori.

Cwblhewch y frawddeg...



e.e. Hoffwn i i chi wrando'n ofalus ar y stori.

Cwblhewch y frawddeg...




e.e. Hoffwn i i chi ddadansoddi canlyniadau'r arbrawf.

Ymarfer



Mewn parau yn seiliedig ar Faes Dysgu a Phrofiad neu addysg gynradd/ uwchradd, meddyliwch am gyfarwyddiadau neu gwestiynau cwrtais gallwch chi ddefnyddio mewn gwers benodol. Gwnewch restr.



Cofiwch wrth gasglu tystiolaeth / recordio gwersi meicro yn y dosbarth

Ceisiwch ddefnyddio:

- Amrywiaeth o ferfau gorchmynnol-unigol a lluosog.
- Gorchmynion negyddol e.e. Paid/ Peidiwch/ Rhaid.
- Cwestiynau neu gyfarwyddiadau cwrtais e.e. Hoffwn i/ Allwch chi...?/ Wnewch chi...?
- Defnyddiwch fethodoleg dysgu iaith e.e. drilio, cwestiynu, gemau iaith.

Cwestiynau caeëdig



Cwestiynau ...

Mae dau brif fath o gwestiwn ...

cwestiwn caeëdig:

ateb penodol yn unig
e.e. ateb cadarnhaol
neu negyddol.


cwestiwn agored:

amrywiaeth o atebion
posib.



Cwestiynau caeëdig ...

Mae sawl ffordd o ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn Gymraeg, felly mae'n bwysig eich bod chi'n modelu'r patrymau cywir ar gyfer y disgyblion:



Ffurio cwestiynau caeëdig ...

Oes > ffurfiau amhendant

(Is there a...?/ Are there any...?)

Cwestiynau enghreifftiol:

Oes llyfr ar y bwrdd?

Oes pensiliau yn y bocs?

Atebion: Oes/ Nac oes.

Ydy (ydy'r) > ffurfiau pendant

(Is (the)...?/ Are (the) ...?)

Cwestiynau enghreifftiol:

Ydy John yn absennol?

Ydy'r llyfr ar y bwrdd?

Atebion: Ydy/ Nac ydy.

Cofiwch:

Mae cymorth yn y cwestiwn o ran sut mae ateb y cwestiynau hyn.

Y presennol




Pan fyddwch chi'n gofyn cwestiwn i ffrind yn presennol, defnyddiwch y patrwm:
Wyt ti...?

Atebion posib: **Ydw/ Nac ydw.**

Pan fyddwch chi'n gofyn cwestiwn i rywun hŷn, i ddangos parch (e.e. at y prifathro)
neu i fwy nag un person, defnyddiwch y patrwm:
Ydych chi ...?

Atebion posib: **Ydw/ Nac ydw/ Ydyn/ Nac ydyn.**

Y presennol



Cwestiwn	Ateb cadarnhaol	Ateb negyddol
Ydw i...?	Wyt, rwyd ti Ydych, rydych chi	Nac wyt, dwyt ti ddim Nac ydych, dydych chi ddim
Wyt ti'n...?	Ydw, rydw i'n	Nac ydw, dydw i ddim yn
Ydy e'n/hi'n...?	Ydy, mae e'n/hi'n	Nac ydy, dydy e/hi ddim yn
Ydy Sian yn... ?	Ydy, mae Sian yn	Nac ydy, dydy Sian ddim yn
Ydy'r plant yn ...?	Ydyn, mae'r plant yn	Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn
Ydyn ni'n ...?	Ydyn, rydyn ni'n Ydych, rydych chi'n	Nac ydyn, dydyn ni ddim yn Nac ydych, dydych chi ddim yn
Ydych chi'n...?	Ydw, rydw i'n Ydyn, rydyn ni'n	Nac ydw, dydw i ddim yn Nac ydyn, dydyn ni ddim yn
Ydyn nhw'n...?	Ydyn, maen nhw'n	Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn

Y gorffennol



Os ydy cwestiwn yn defnyddio ffurf gorffennol y ferf, yna **‘do’** a **‘naddo’** fydd yr atebion.


Er enghraifft:

Wnest ti dy waith cartref neithiwr? Do. / Naddo.

Orffennodd Siân ei chinio? Do. / Naddo.

Ddarllenodd e nofel neithiwr? Do. / Naddo.

Y gorffennol cryno




Cwestiwn	Ateb cadarnhaol	Ateb negyddol
<u>B</u> rynais i?	Do , prynais i	Naddo , <u>ph</u> rynais i <u>dd</u> im
<u>D</u> eimlaist ti?	Do , teimlais i	Naddo , <u>th</u> eimlais i <u>dd</u> im
<u>G</u> afodd e / hi?	Do , cafodd e/hi	Naddo , <u>ch</u> afodd e/hi <u>dd</u> im
<u>F</u> wytodd hi?	Do , bwyttodd hi	Naddo , <u>f</u> wytodd hi <u>dd</u> im
<u>D</u> arllenodd Siôn?	Do , darllenodd Siôn	Naddo , <u>dd</u> arllenodd Siôn <u>dd</u> im
<u>W</u> naeth y plant?	Do , gwnaeth y plant	Naddo , <u>w</u> naeth y plant <u>dd</u> im
<u>L</u> iwioch chi?	Do , lliwioch chi	Naddo , <u>l</u> iwioch chi <u>dd</u> im
<u>F</u> entron ni?	Do , mentron ni	Naddo , <u>f</u> entron ni <u>dd</u> im
<u>R</u> edon nhw?	Do , rhedon nhw	Naddo , <u>r</u> edon ni <u>dd</u> im

Yr amherffaith



Cwestiwn	Ateb cadarnhaol	Ateb negyddol
Oeddwn i'n...?	Oeddet , roeddet ti'n Oeddech , roeddech chi'n	Nac oeddet , doeddet ti ddim yn Nac oeddech , doeddech chi ddim yn
Oeddet ti'n ...?	Oeddwn , roeddwn i'n	Nac oeddwn , doeddwn i ddim yn
Oedd e'n/ hi'n ...?	Oedd , roedd e'n/ hi'n	Nac oedd , doedd e/hi ddim yn
Oedd Siôn yn ...?	Oedd , roedd Siôn yn	Nac oedd , doedd Siôn ddim yn
Oedd y plant yn ...?	Oedd , roedd y plant yn	Nac oedd , doedd y plant ddim yn
Oedden ni'n ...?	Oedden , roedden ni'n Oeddech , roeddech chi'n	Nac oedden , doedden ni ddim yn Nac oeddech , doeddech chi ddim yn
Oeddech chi'n ...?	Oeddwn , roeddwn i'n Oedden , roedden ni'n	Nac oeddwn , doeddwn i ddim yn Nac oedden , doedden ni ddim yn
Oedden nhw'n darllen yn ...?	Oedden , roedden nhw'n	Nac oedden , doedden nhw ddim yn

Y dyfodol



Cwestiwn	Ateb cadarnhaol	Ateb negyddol
Fyddda i ...?	Byddi , byddi di Byddwch , byddwch chi	Na fyddi , fyddi di ddim Na fyddwch , fyddwch chi ddim
Fyddi di ...?	Byddaf , byddda i'n	Na fyddaf , fyddda i ddim
Fydd e / o/ hi...?	Bydd , bydd e / o/ hi	Na fydd , fydd e / o/ hi ddim
Fydd Sian ...?	Bydd , bydd Siôn	Na fydd , fydd Siôn ddim
Fydd y plant ...?	Bydd , bydd y plant	Na fydd , fydd y plant ddim
Fyddwn ni ...?	Byddwn , byddwn ni Byddwch , byddwch chi	Na fyddwn , fyddwn ni ddim Na fyddwch , fyddwch chi ddim
Fyddwch chi ...?	Byddda , byddda i	Na fyddda , fyddda i ddim
	Byddwn , byddwn ni	Na fyddwn , fyddwn ni ddim
Fyddan nhw ...?	Byddan , byddan nhw	Na fyddan , fyddan nhw ddim

Cwestiynau pwysleisiol



Os ydy cwestiwn yn cael ei ofyn mewn ffordd bwysleisiol, hynny yw, trwy roi'r pwyslais ar ddechrau'r cwestiwn, yna '**ie**' a '**nage**' fydd yr atebion.

Er enghraifft:

Mared oedd yn fuddugol? **ie.** / **Nage.**

I Gaerdydd est ti i siopa? **ie.** / **Nage.**

I'm a Celebrity oedd hoff raglen y plant? **ie.** / **Nage.**

Cofiwch:
Treigladau
meddal ar ôl 'i'

Ga i...?



Ga i **f**enthbyg pensiliau lliw?

Cofiwch:
Treigladau llaes
ar ôl 'na'

Cei



os gweli di'n dda?
(un person)

Na **chei**



os gwelwch yn dda?
(grŵp o bobl neu i ddangos parch)

Cofiwch:
Treiglad
meddal ar ôl 'i'

Gawn ni...?



Gawn ni **f**ynd ar drip?

Cofiwch:
Treiglad llaes
ar ôl 'na'

Cewch



os gweli di'n dda?
(un person)

Na **ch**ewch




os gwelwch yn dda?
(grŵp o bobl neu i ddangos parch)

Cofiwch:
Treigladau
meddal ar ôl 'i'

Ga i...?

Mewn parau, ymarferwch ofyn
ac ateb y cwestiynau canlynol:




paned o de
taflen arall
clywed dy ateb
benthyg pren mesur
gweld dy waith
llyfr newydd
mynd i'r tŷ bach
rhedeg yn y ras yma

Cofiwch:
Treigladau
llaes
ar ôl 'na'


Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Nodwch eich atebion ar eich byrddau gwyn bach:



Cwestiynau:	
1. <u>Oes</u> car gennyt ti?	Oes / Nac oes
2. <u>Ydy</u> e'n mynd heno?	Ydy / Nac ydy
3. <u>Oedd</u> Rhodri yn disgwyl ennill?	Oedd / Nac oedd
4. <u>Fyddi</u> di'n gorffen am dri?	Byddaf / Na fyddaf
5. <u>Est</u> ti i'r llyfrgell ddoe?	Do / Naddo
6. <u>Ai</u> i'r llyfrgell est ti ddoe?	Ie / Nage

**Mae cliw yn y
cwestiwn fel
arfer!**




Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Nodwch eich atebion ar eich byrddau gwyn bach:

Cwestiynau:		
6. <u>Wyt ti</u> yn canolbwyntio?		Ydw / Nac ydw
7. <u>Ydych chi</u> wedi gorffen?		Ydyn / Nac ydyn
8. <u>Ydw i</u> 'n siarad?	Wyt / Nac wyt ...	Ydych / Nac ydych
9. <u>Ga i fynd</u> adre?		Cei / Na chei
5. Pensil yw hwnna?		Ie / Nage
6. <u>Alla i</u> fynd adre?		Galli / Na alli

Mae cliw yn y
cwestiwn fel
arfer!

Tasg 1: Cwestiynau




- Ysgrifennwch ddeg cwestiwn y byddwch chi'n defnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu ar daflenni gwaith.
- Defnyddiwch y patrymau sydd wedi ymddangos yn y ddarlith hon, e.e.

Oes unrhyw un yn absennol heddiw?

- Gwnewch gofnod ar ddarn o bapur o'r atebion yn barod i farcio.

Tasg 2: Atebion




- Cyfnewidiwch eich cwestiynau gyda phartner.
- Atebwch y cwestiwn gyda'r 'Yes / No' cywir e.e.

Oes unrhyw un yn absennol heddiw?

Nac oes.

- Cyfnewidiwch eto ar ôl ateb bob cwestiwn a marciwch.

Gêm y gadair goch




Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:

1. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3.
2. Bydd angen i bawb feddwl am bobl enwog sydd wedi gwneud gwahaniaeth mewn Maes Dysgu a Phrofiad penodol e.e. wedi creu rhywbeth, wedi ennill rhywbeth a.y.y.b.
3. Bydd angen 10 munud ar bawb i wneud gwaith ymchwil a chasglu ffeithiau.
4. Bydd angen i aelodau eraill o'r grŵp ofyn cwestiynau caeëdig i'r person yn y gadair goch.
5. Bydd hawl gan y person ateb gyda'r 'Yes/ No' cywir yn yn unig.
6. Bydd y myfyriwr sy'n dyfalu'r nifer mwyaf o bobl yn ennill.





Gêm y gadair goch



- Bydd angen i bawb feddwl am bobl enwog sydd wedi gwneud gwahaniaeth mewn Maes Dysgu a Phrofiad penodol e.e. wedi creu rhywbeth, wedi ennill rhywbeth ayyb.
- 10 munud i wneud gwaith ymchwil a chasglu ffeithiau.
- Bydd angen i aelodau eraill o'r grŵp ofyn cwestiynau caeëdig i'r person yn y gadair goch.
- Bydd hawl gan y person ateb gyda'r 'Yes / No' cywir yn yn unig.
- Bydd y myfyriwr sy'n dyfalu'r nifer mwyaf o bobl yn ennill.

Da iawn chi!



Daliwch ati!